

Cymdeithas Bob Owen

Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 58

Pris i aelodau: £5.00 y flwyddyn
Pris i'r cyhoedd: £1.50 y rhifyn

Nadolig 1996



Cyfarchion y Tymor i'n holl ddarllenwyr




CARDIAU POST SY'N GARDIAU NADOLIG

gan Dafydd Guto

YN ARFEROL cysylltir cardiau â'r Nadolig; cardiau sy'n dymuno llawenydd y tymor ac wedi eu hanfon at deulu a chydabod gyda neges dymhorol. Ond mae yna gardiau post darluniadol ar gael; rhai lliwgar sy'n perthyn i Wyl y Geni.

Yr hyn sy'n rhyfeddol ynglŷn â hynt a helynt y cardiau post yng Nghymru yw eu bod yn dra lliwgar ac artistig i raddau, er bod yna duedd i lynu wrth olygfeydd naturiol. Yma roedd prydfferthwch a mawredd yn perthyn i'r hyn a lechai wrth ein traed, boed fynydd, rhacadr neu fwhmanfa (gair a glywais am 'pier' gan fy niweddar athro Cymraeg, H. J. Hughes, Dolbenmaen, yn Ysgol Ardudwy, Harlech).

Diddorol fyddai gweld beth fyddai'r adwaith petai cardiau post yn dal mewn bri yn y Gymru sydd ohoni, a hynny o ystyried pris cerdyn o'r fath a'r hyn a delir am gerdyn 'Dolig. Mae yma le masnachol i ymelwa



a chystadlu'n frwd â'r byd cardiau 'Dolig Saesneg sy'n rhatach i'w prynu gan Gymry Cymraeg eu hiaith ar draul y Gymraeg. Hwyrach mai mewn cynhyrchu cardiau post Cymraeg Nadoligaidd eu naws am bris llai

mae'r ateb i'w gael yn yr argyfwng presennol a hynny law yn llaw â chardiau 'Dolig Cymraeg, wrth reswm.

CARTWNAU

Neges (Saesneg) o'r Hen Walia

fynyddig; merch mewn gwisg Gymreig yn dymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda; llythyr-gerdyn yn Gymraeg ar yr ochr arall ynghyd â manylion yn iaith y Nefoedd! Neges yn Gymraeg 'Cofion cynhesaf oddiwrth eich ffrind yng Nghymru; stamp dimai; marc-post Pontypridd 1910; anfonwyd i rywun a arhosai mewn tafarn o'r enw Royal Oak yn Shepton Mallet, Gwlad yr Haf. Yr arlunydd yw J.M.S.; ys gwn i a wŷr y darllenwyr fwy amdano?

Merch mewn gwisg Gymreig yn sglefrío ac yn dymuno, yn Saesneg, Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda; llythyr-gerdyn fel uchod; neges; anfonwyd o Gasnewydd; marc-post 23 Rhagfyr 1905; i 21 Gt. Chapel Street, Westminster, Llundain, Lloegr. Yr arlunydd yw J.M.S.

GOLYGFYDD A DYMUNIADAU BEDDGELERT: Y Felin; Raphael Tuck, a aned yn Kozmin, Dwyrain Prwsia, a'i feibion Adolph a Herman; 'Blwyddyn newydd dda i chwi' (Saesneg); Oilette, rhif 14441; arlunydd (?), ond fe fyddai'r

